**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - DYDD LLUN, 13 RHAGFYR 2021 DYDD LLUN, 13 RHAGFYR 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: S. HEALY (CADEIRYDD)

Councillors M. Cook (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
M. Cross
G. A. Davies
J. Millard
M. Moore
J. P. Morgan
S. Thomas
H. Trollope
J. Holt
J. Hill
J. C. Morgan

WITH:

| |
|---|
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Andrew Parker (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Monitro) |
| Michelle Hicks (Ysgrifennydd) |
| Pob Cynghorydd (Monitro) |
| Ceri Bird (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Adroddwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Cross.<br><br>**<u>CYDYMDEIMLAD</u>**<br><br>Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau am farwolaeth drist Helen Wilkshire, gwraig y Cynghorydd David Wilkshire a gofynnodd i'r Pwyllgor gynnal munud o dawelwch fel arwydd o barch. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Gwnaed y datganiadau buddiant dilynol:-<br><br><u>Eitem Rhif 7 – Rhaglen Cyllideb Gyfranogol Blaenau Gwent: "Llais y Gymuned, Dewis y Gymuned".</u><br>Cynghorydd P. Baldwin<br>Cynghorydd J. Holt<br>Cynghorydd G. Davies<br>Cynghorydd J.P. Morgan<br><br>Dymunai'r Cynghorydd M. Moore nodi ei bod yn cael ei chyflogi gan GAVO y mae sôn amdano mewn nifer o'r adroddiadau a gaiff eu hystyried. | |
| No. 4 | **<u>PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 5 | **ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL 2020/21 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BLAENAU GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Phartneriaethau y trydydd adroddiad cynnydd blynyddol ar Gynllun Llesiant 'Y Blaenau Gwent a Garem'. Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth am yr adroddiad ac amlinellu'r pwyntiau allweddol a fanylir yn yr adroddiad.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth yr Aelodau at yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol sy'n rhoi manylion y cynnydd a wnaed yn ail flwyddyn Rhaglen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am gyflawni ar y Cynllun Llesiant dan y pump adran allweddol. Wedyn rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth drosolwg o'r pum adran allweddol a amlinellir yn yr adroddiad.<br><br>Ar y pwynt hwn, gwahoddodd y Rheolwr Gwasanaeth gwestiynau gan Aelodau a nododd y caiff cwestiynau eu trosglwyddo i'r bwrdd lleol neu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol os yw Aelodau'n gofyn am hynny.<br><br>Croesawodd Aelod yr adroddiad ynghyd â'r gwaith a gyflawnwyd a chynigiodd y dylid cytuno Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor bod Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r cynnydd a wnaed yn y drydedd flwyddyn o ddarpariaeth ar Gynllun Llesiant Blaenau Gwent a rhoddodd sylwadau (Opsiwn 1). | |
| No. 6 | **CYNNIG GOFAL PLANT CYNLLUN PEILOT RHAGLEN TRAWSNEWID INTEGREIDDIO LLYWODRAETH CYMRU – CYNLLUN PEILOT CYDWEITHIO – BRAENARU BLAENAU GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwr Interim Cyllid a Chaffael (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) a Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad i Bwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cynnydd a wnaed hyd yma ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | gynllun peilot Trawsnewid Integreiddio Blynyddoedd Cynnar yn ardal Braenaru Blaenau Gwent. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth am ymestyn ymhellach i Ward Blaenau o fis Ionawr 2022.<br><br>Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaeth yr Aelodau ymhellach am y gwaith a wneir fel rhan o gynllun peilot Trawsnewid Integreiddio Blynyddoedd Cynnar. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth fod cynlluniau yn mynd rhagddynt i symud i Frynmawr ac yna Nantyglo erbyn Ionawr 2022 fel y cymeradwywyd eisoes gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth, oherwydd i Adran Ymwelwyr Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Blaenau Gwent gael ei ailstrwythuro'n ddiweddar a bod ymwelwyr iechyd wedi cael llwythi achos newydd, bod wardiau Brynmawr, Nantyglo a Blaenau yn cael eu rhedeg fel tîm ac felly gofynnwyd am gymeradwyaeth gan Bartneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent i ymestyn i Blaenau ar yr un pryd â Nantyglo ym mis Ionawr 2022.<br><br>Ychwanegwyd y cafodd gwaith hefyd ei wneud am ddatblygu'r cynllun peilot am 5 mlynedd arall ac mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn hyderus, os oes cyllid ar gael, y gellid ymestyn y cynllun peilot ar draws Blaenau Gwent o fewn 2½ mlynedd, er y dywedodd y byddai pa mor gyflym y byddai'n cael ei ymestyn yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.<br><br>Croesawodd Aelod ymestyn y cyllid a gobeithiai y byddai Blaenau Gwent i gyd yn manteisio o'r prosiect rhagorol hwn.<br><br>Codwyd pryderon yng nghyswllt diffyg tystiolaeth gefnogi o'r gwaith a wnaed yn Ward Cwm. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Plant na chafodd gwerthusiad llawn o Ward Cwm ei gwblhau adeg ysgrifennu'r adroddiad, fodd bynnag gobeithid y byddai dadansoddiad llawn yn cael ei gynnwys yn y cam nesaf yn dilyn ymestyn pellach ym Mrynmawr, Nantyglo a Blaenau pan geisiwn gymeradwyaeth am ymestyn ar draws Blaenau Gwent.<br><br>Nododd Aelod arall y gwaith rhagorol a gyflawnodd y prosiect a chroesawodd yr ymestyn ar draws Blaenau Gwent gan y byddai'n cael ei groesawu'n fawr yn Ward Waundeg. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y cynllun yn helpu i wella ardal unwaith y mae'n bresennol mewn aelwyd fregus. Roedd y Rheolwr Gwasanaeth hefyd yn falch y byddai Ward Waundeg yn un o'r ardaloedd a gynhwysir yn y cynllun ymestyn a gobeithid y gallwn dargedu'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | ardal fregus iawn hon y flwyddyn nesaf.<br><br>Ategodd yr Aelod ei ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaeth a'i Thîm ar eu gwaith rhagorol.<br><br>Cododd Aelod arall bryderon na chynhaliwyd astudiaeth o gynnydd plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wrth iddynt symud ymlaen drwy eu bywyd ysgol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad yw Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr agwedd hon ar hyn o bryd a nododd y dangosyddion perfformiad a gaiff wedyn eu mesur mewn system coch, oren a gwyrdd yn nhermau'r camau i'w cymryd. Caiff y canfyddiadau hyn eu trosglwyddo i ysgolion i amlygu'r gwaith y gall fod ei angen gyda'r plentyn.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth fod hwn yn ddarn mawr o waith ac nad oes unrhyw gyllid i'w wneud ar hyn o bryd. Nodwyd fod yr Aelod wedi codi'r mater nifer o weithiau yn y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth na chafodd y cais ei anwybyddu ond nad oedd dyhead gan Lywodraeth Cymru i symud y prosiect yn y cyfeiriad hwn.<br><br>Teimlai'r Aelod fod hwn yn ddiffyg ar ran Llywodraeth Cymru ac y dylid pwyso i fonitro cynnydd disgyblion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, er bod yr Aelod yn cydnabod y gwaith rhagorol ac yn croesawu ei ymestyn ar draws Blaenau Gwent.<br><br>Gofynnwyd cwestiwn am 'hybiau' yn y gwahanol ardaloedd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth yr edrychwyd ar nifer o leoedd yn Ward Brynmawr, fodd bynnag maent allan o gyllideb. Sicrhawyd ystafell yn Ysgol Gynradd Blaen-y-Cwm yn dilyn sgwrs gyda Phennaeth yr ysgol.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei hadroddiad ardderchog a'r gwaith a wnaed gan y Tîm.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor bod Pwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r ymestyn a amlinellir ar gyfer 2022 (Opsiwn 1). | |
| **No. 7** | **<u>RHAGLEN CYLLIDEB GYFRANOGOL BLAENAU GWENT 'LLAIS Y GYMUNED, DEWIS Y GYMUNED'</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau. | |

Dywedodd y Swyddog Polisi (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad am ganlyniadau rhaglen Cyllideb Gyfranogol “Llais y Gymuned, Dewis y Gymuned”. Siaradodd y Swyddog Polisi yn fanwl am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau allweddol.

Cododd Aelod bryderon yng nghyswllt y problemau gyda’r broses ar gyfer y rhaglen a dywedodd fod llawer o bobl yn cael trafferth i ymuno mewn galwadau Zoom ac na fedrent bleidleisio felly. Gan nad oedd cyfnod clo gwirioneddol yn weithredol ar y pryd y gellid bod wedi cynnal y broses wyneb yn wyneb gan gadw’r pellter cymdeithasol angenrheidiol. Teimlodd yr Aelod nad oedd pawb â gallu digidol neu’n hyderus i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol.

Nododd yr Aelod hefyd ei bryderon fod arian yn cael ei ddyfarnu i brosiectau tu allan i Flaenau Gwent.

Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau y pryderon a dweud, er nad oedd y sefyllfa yn ddelfrydol, fod angen i’r Cyngor gofio am y pandemig a symud â’r prosiect ymlaen o agwedd diogelwch cyhoeddus. Ychwanegwyd y caiff y broses ei chynnal yn y modd mwyaf diogel a’i bod yn dilyn prosesau Rhanbarth Gwent. Gwerthfawrogai’r Rheolwr Gwasanaeth y gellid cyfyngu’r llwyfan digidol yn amlwg gyda’r cyfyngiadau bod angen symud y broses ymlaen yn y ffordd fwyaf addas.

Yn nhermau dyfarnu arian tu allan i Flaenau Gwent, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y gall y sefydliadau fod wedi eu lleoli tu allan i’r Fwrdeistref ond eu bod yn gweithredu o fewn y Fwrdeistref gan fod y gwasanaethau ar gyfer pobl Blaenau Gwent.

Aeth y Rheolwr Gwasanaeth ymlaen drwy ddweud y cafodd yr arian bellach ei ddosbarthu gyda chontractau wedi eu llofnodi a bod prosiectau yn awr yn y cam cyflenwi. Cyflwynir deilliannau’r prosiectau y flwyddyn nesaf ac er y codwyd rhai pryderon teimlid y cafodd y digwyddiadau eu croesawu.

Ychwanegodd y Swyddog Polisi (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) mai’r Cyngor sy’n rheoli’r cyllid ac y caiff cynlluniau’r prosiect eu monitro o hyn ymlaen i sicrhau fod eu cynlluniau ar y trywydd i gyflawni’r prosiectau. Cyflwynir diweddariad ar brosiectau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor ar yr adroddiad a derbyniodd yr adroddiad fel y'i darparwyd cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Opsiwn 1).<br><br>Gadawodd y Cynghorydd M. Moore y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 8** | **<u>DIWEDDARIAD CYNNYDD RHAGLEN PARTNERIAETH BWYD CYNALIADWY</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cymunedau a thai, Cartrefi Cymunedol Tai Calon. Rhoddodd Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy Blaenau Gwent, Tai Calon ddiweddariad cynhwysfawr ar y Rhaglen Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw banciau/grwpiau bwyd yn hyrwyddo bwyta'n iach ac a gafodd safleoedd bwyd cyflym eu herio i newid eu cynnig.<br><br>Dywedodd y Cydlynydd fod bwyta'n iach yn 'bwnc poeth' ar hyn o bryd a chyfeiriodd at y newidiadau a wnaed mewn diodydd llawn siwgr. Gobeithir y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu yn y diwydiant bwyd. Mae'r drafodaeth ar fwyd ar yr agenda i'w ystyried gan Senedd Cymru a theimlai'r Cydlynydd y byddai'n ddiddorol gweld canlyniad y trafodaethau hyn.<br><br>Deallai'r Aelod fod mynd i'r afael â safleoedd bwyd cyflym yn newid mawr yn genedlaethol, fodd bynnag teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig ein bod yn ceisio trin y materion yn fwy lleol. Dywedwyd fod rhai grwpiau yn rhoi addysg am fwyta'n iach ac y gwneir llawer o waith i gael mwy o ffrwythau a llysiau ffres mewn banciau bwyd. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig sicrhau fod gan unigolion fynediad i ffwrn ac y dysgir rysetiau iddynt i gynnwys ffrwythau a llysiau yn eu diet bob dydd. Mae'r rhain yn feysydd allweddol mewn newid ffyrdd o fyw a fyddai hefyd yn dibynnu ar incwm teulu, felly mae angen economïau lleol da.<br><br>Ychwanegodd y Cydlynydd fod ysgolion yn un o'r lleoedd addawol i drin y materion hyn a bod llawer o brosiectau cyffrous yn mynd rhagddynt mewn ysgolion, fodd bynnag dywedwyd na fedrem orfodi teuluoedd nac unigolion i fwyta'r bwydydd cywir. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a nododd yr adroddiad a'r atodiadau fel y'u darparwyd (Opsiwn 1). | |